2. Gan ddefnyddio'r ffigurau ar gyfer treisio fel enghraifft, esboniwch pam efallai nad yw ystadegau troseddu a gofnodwyd gan yr heddlu yn ddilys.
3. Pa ddau beth sydd ddim wedi'u cynnwys yn yr ystadegau troseddu a gofnodwyd?

Rhesymau dros danreportio troseddau (tudalen 41)

Rhestrwch 6 rheswm a allai eich atal rhag reportio trosedd.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

56



Gweithgaredd: Trafodaeth Rhesymau dros danreportio troseddau (tudalen 41)

- A. Gweithiwch mewn grŵp bach.
1. Gan ddefnyddio'r rhesymau a roddir ar dudalen 41 eich gwrslyfr i esbonio pam nad yw dioddefwyr a/neu dystion yn reportio troseddau, ynghyd ag unrhyw resymau perthnasol eraill, penderfynwch pam na fyddai'r troseddau canlynol yn cael eu reportio i'r heddlu:
 - a. llithio (*soliciting*) ar gyfer puteindra
 - b. fandaliaeth
 - c. masnachu pobl
 - ch. bod ym meddiant cannabis
 - d. treisio
 - dd. taflu sbwriel
 - e. rhyw o dan oed
 - f. bwrgleriaeth
 - ff. ymladd rhwng gangiau
 - g. cam-drin plant
 - ng. troseddau 'ar sail anrhydedd'
 - h. gweithiwr mewn siop ddim yn rhoi'r newid cywir i gwsmer
 - i. hacio cyfrifon banc
 - j. trais domestig
 2. Yn eich barn chi, pa rai o'r troseddau hyn sydd leiaf tebygol o gael eu reportio? Ceisiwch roi'r troseddau uchod yn nhrefn y tebygrwydd y bydd pobl yn eu reportio.
- B. Gan weithio ar eich pen eich hun, yn eich geiriau eich hun, esboniwch yn gryno pam byddai tanreportio yn gwneud yr ystadegau troseddu yn llai dilys.

Rhesymau dros dangofnodi troseddau (tudalennau 41–42)

Rhestrwch 7 rheswm gallai'r heddlu ei roi dros beidio â chofnodi trosedd.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

Gweithgaredd: Trafodaeth Rhesymau dros dangofnodi troseddau (tudalen 42)

- A. Gweithiwch mewn grŵp bach.
1. Gan ddefnyddio'r rhesymau a roddir ar dudalennau 41–42 eich gwrslyfr i esbonio pam nad yw'r heddlu yn cofnodi troseddau, ynghyd ag unrhyw resymau perthnasol eraill, penderfynwch pam na fyddai'r heddlu o bosibl yn cofnodi'r troseddau canlynol:
 - a. llithio (*soliciting*) ar gyfer puteindra
 - b. fandaliaeth
 - c. masnachu pobl
 - ch. bod ym meddiant cannabis
 - d. treisio
 - dd. taflu sbwriel
 - e. rhyw o dan oed
 - f. bwrgheriaeth
 - ff. ymladd rhwng gangiau
 - g. cam-drin plant
 - ng. troseddau 'ar sail anrhydedd'
 - h. gweithiwr mewn siop ddim yn rhoi'r newid cywir i gwsmer
 - i. hacio cyfrifon banc
 - j. trais domestig
 2. Yn eich barn chi, pa rai o'r troseddau hyn sydd leiaf tebygol o gael eu cofnodi gan yr heddlu? Ceisiwch roi'r troseddau uchod yn nhrefn y tebygrwydd y bydd yr heddlu yn eu cofnodi.

58



1. Disgrifiwch yn gryno y problemau canlynol sy'n gysylltiedig ag ystadegau troseddu a gofnodwyd gan yr heddlu:

a. problemau cynrychioldeb

b. problemau polisi

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

Ffigur tywyll trosedd (tudalen 42)

1. Beth yw ffigur tywyll trosedd?

2. Esboniwch yn gryno gymhariaeth y mynydd iâ.

Blwch 4 Yr heddlu 'yn addasu a gostwng yr ystadegau' (tudalen 42)

1. Beth wnaeth Awdurdod Ystadegau'r DU ym mis Ionawr 2014?

2. Beth allai fod yn gyfrifol am y can-gyfrif hwn?

3. Pam gallai'r ffigurau fod wedi cael eu haddasu a'u gostwng?

59





Moeseg ymchwil (tudalen 43)

1. Beth yw moeseg o safbwynt gwaith ymchwil ar drosedd?
2. A yw ystadegau'r Swyddfa Gartref yn foesegol? Esboniwch eich ateb.

Diben gwaith ymchwil (tudalen 43)

1. Pam nad yw ystadegau sy'n cael eu casglu gan yr heddlu yn rhoi darlun cywir o droseddu?
 - a. rhoi argraff o weithgarwch yr heddlu
 - b. rhoi argraff o dueddiadau troseddu
 - c. rhoi argraff o droseddau sy'n cael eu reportio a'u cofnodi'n aml
2. Esboniwch yn gryno sut gall ystadegau'r heddlu fod yn ddefnyddiol yn y tair ffordd ganlynol:

Cryfderau a chyfyngiadau eraill (tudalennau 43–44)

1. Gan ddefnyddio enghraifft, esboniwch y rheolau cyfrif.
2. Gan ddefnyddio enghraifft, esboniwch sut bydd newidiadau yn y gyfraith yn effeithio ar ystadegau'r Swyddfa Gartref.
3. Esboniwch y problemau sy'n codi o ran y rheolau ynglŷn â pha droseddau i'w cynnwys yn ystadegau'r Swyddfa Gartref. Rhewch enghreifftiau.

Cwestiwn (tudalen 43)

Yn eich barn chi, beth yw'r dull gorau o gyfrif troseddau: nifer y troseddau neu nifer y dioddefwyr? Rhwch eich rhesymau.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

Gweithgaredd: Clip fideo *Ystadegau a gofnodwyd gan yr heddlu* (tudalen 44)

A. Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag isod.

1. Faint o droseddau sydd ddim yn cael eu cofnodi bob blwyddyn? Pa ganran o'r holl droseddau yw hyn?
2. Pa ganran o droseddau treisio a throseddau rhyw sydd ddim yn cael eu cofnodi? Yn eich barn chi, pam mae hyn yn bryder difrifol iawn?
3. Beth yw 'dim trosedd' (*'no-criming'*)? Sawl achos o dreisio sy'n cael eu diffinio fel hyn?
4. Beth yw effaith targedau ar yr heddlu?
5. Pa ganran o'r heddlu oedd yn teimlo o dan bwysau i beidio â chofnodi troseddau yn ystod y 12 mis blaenorol?
6. Pa bedwar heddlu oedd â'r broblem waethaf o ran peidio â chofnodi troseddau?
7. Sut byddai'n bosibl adfer hyder y cyhoedd yn yr ystadegau?

B. Edrychwch eto ar y diffiniad o ddibynadwyedd ar dudalen 40 eich gwerslyfr. Ar sail yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'r clip, pam efallai nad yw ystadegau troseddu a gofnodwyd gan yr heddlu yn ddibynadwy? (Efallai hoffech chi feddwl am yr hyn mae'r clip yn ei alw'n 'safon aur ystadegol'.)

61

Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (tudalennau 44–46)

Dibynadwyedd (tudalen 44)

1. Pam mae ATCLI yn cael ei ystyried yn ddibynadwy?
2. Beth yw'r cyfyngiadau o ran dibynadwyedd ATCLI? Rhowch enghraifft i ddangos hyn.

Cwestiwn (tudalen 44)

Heblaw am rywedd, pa rai o nodweddion eraill y cyfwelydd fyddai'n gallu effeithio ar y ffordd mae'r person sy'n cael ei gyfweld yn ymateb i'r cwestiynau?

Dilysrwydd (tudalennau 44–45)

1. Beth yw cryfder ATCLI o ran dilysrwydd?
2. Beth yw'r pedwar rheswm dros y cyfyngiadau ar ddilysrwydd ATCLI?
 - a.
 - b.
 - c.
 - ch.

Cwestiwn (tudalen 45)

Rhowch enghreifftiau o'r mathau o droseddau y byddai dioddefwr yn amharod neu ddim yn gallu eu reportio, a throseddau lle nad oedd yr unigolyn yn ymwybodol ei fod yn ddioddefwr.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

62



Dwy broblem arall yn ymwneud â dilysrwydd (tudalen 45)

1. Esboniwch yn gryno y problemau canlynol sy'n ymwneud â dilysrwydd ATCLI:
 - a. Dydy pob dioddefwr ddim yn cael ei gynnwys.

- b. Dydy pob trosedd ddim yn cael ei chynnwys.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

Moeseg ymchwil (tudalen 45)

1. Beth yw'r ddau reswm sy'n esbonio pam nad oes llawer o broblemau moesegol yn gysylltiedig ag ATCLI?

2. Pa broblemau moesegol allai fod?

Diben gwaith ymchwil (tudalen 45)

1. Esboniwch yn gryno bedwar o gryfderau ATCLI.
 - a.

b.

c.

ch.

63

Cryfderau a chyfyngiadau eraill (tudalennau 45–46)

Esboniwch pam mae ATCLI yn cael ei ystyried yn gynrychiadol.

Testun 1.6

Gweithgaredd: Trafodaeth *Arolygon troseddu* (tudalen 46)

A. Gan weithio mewn grŵp bach, rhowch atebion i gwestiynau 1–3 isod.

1. Ym mha ffyrdd gallai profiadau penodol rhai pobl o drosedd olygu eu bod nhw'n llai tebygol o gymryd rhan yn yr arolwg?
2. Am ba resymau eraill gallai unigolyn wrthod cymryd rhan mewn cyfweiliad, *beth bynnag* yw'r pwnc dan sylw (er enghraifft, os yw'r arolwg yn sôn am arferion siopa, barn wleidyddol neu greddoau crefyddol)?
3. Pam byddai rhai pobl yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn arolwg am fod yn ddioddefwr? Sut gallai hyn effeithio ar gynrychioldeb canlyniadau cyffredinol yr arolwg?

B. Fel dosbarth, defnyddiwch eich atebion i gwestiynau Rhan A uchod, a thrafodwch gamau posibl i annog dioddefwyr ymosodiadau treisgar neu rywiol, sy'n amharod i siarad am eu profiadau, i gymryd rhan mewn arolygon dioddefwyr. Ysgrifennwch nodiadau ar y drafodaeth yn y lle gwag isod.

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

64



Gwahaniaethau rhwng lefelau trosedd yn ôl ffynonellau gwahanol (tudalen 46)

1. Wrth gymharu ystadegau'r heddlu â rhai ATCLI, pa ddull sy'n cofnodi'r nifer mwyaf o droseddau? Beth yw'r rheswm dros hyn?

2. Pa ddull o fesur yw'r un mwyaf defnyddiol? Esboniwch pam.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

Blwch 5 Ffynonellau eraill o ystadegau troseddu (tudalen 46)

Rhowch grynodeb byr o'r ffynonellau ystadegau canlynol:

1. Ystadegau am droseddwr a gafwyd yn euog.

2. Astudiaethau hunanadrodd.

3. Troseddau yn erbyn busnesau.

65



Paratoi ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (tudalen 47)

Cwblhewch eich gwaith paratoi yn y lle gwag isod.

Testun 1.6

Gwerthuso dulliau o gasglu ystadegau am drosedd

66




TESTUN 2.1 Cymharu ymgyrchoedd dros newid

Amcanion Dysgu:

Ar ôl astudio'r testun hwn, dylech chi allu:

- Gwneud cymariaethau clir a manwl o ymgyrchoedd dros newid.
- Gwneud cysylltiadau amlwg ag ymgyrch arfaethedig, gan gyfeirio at ffynonellau penodol a phriodol i ategu'r casgliadau.
- Defnyddio'r meini prawf canlynol wrth gymharu:
 - newid polisi
 - newid y gyfraith
 - newid blaenoriaethau asiantaethau
 - newid trefniadau cyllido
 - newid ymwybyddiaeth
 - newid agweddau.
- Bod yn ymwybodol y gall fod gan ymgyrchoedd dros newid ddibenion gwahanol.
- Cymharu enghreifftiau o ymgyrchoedd dros newid ac ystyried eu heffeithiolrwydd wrth gyflawni eu hamcanion.



Testun 2.1
Cymharu ymgyrchoedd dros newid

Man cychwyn (tudalen 48)

Ysgrifennwch eich atebion i'r gweithgaredd Man cychwyn yn y lleoedd gwag isod.

1. Gwnewch restr o unrhyw ymgyrchoedd dros newid rydych chi'n gwybod amdany'n nhw. Gall yr ymgyrchoedd fod ar unrhyw destun a does dim rhaid iddyn nhw ganolbwyntio ar droseddau.

2. Beth yw pwrpas yr ymgyrch? Beth mae'r ymgyrch eisiau ei newid a pham?

3. Pa wybodaeth mae'r ymgyrch yn ei rhoi i chi?

4. Sut gwnaethoch chi glywed am yr ymgyrch?

5. Cymharwch eich atebion ag atebion gweddill y dosbarth. A oes unrhyw debygrwydd rhwng yr ymgyrchoedd?

Ymgyrchoedd dros newid (tudalennau 48–53)

Blwch 6 *Polisiâu a deddfau* (tudalen 48)

Rhowch grynodedb byr o'r canlynol:

1. Polisiâu

2. Deddfau

Testun 2.1

Gymharu ymgyrchoedd dros newid

Ymgyrchoedd i newid polisi (tudalennau 48–49)

1. Amlinellwch yn gryno beth yw gwaith Unlock.

2. Pa ddulliau ymgyrchu mae Unlock yn eu defnyddio? Ysgrifennwch grynodedb byr o'r dulliau hyn.

3. Ysgrifennwch grynodedb o lwyddiannau Unlock.

68



Ymgyrchoedd i newid y gyfraith (tudalennau 49–50)

1. Amlinellwch yn gryno ymgyrch Deddf Sarah, gan gynnwys y cefndir.
2. Disgrifiwch sut gwnaeth y cyfryngau gefnogi'r ymgyrch.
3. Ysgrifennwch grynodeb o lwyddiant Deddf Sarah.

Testun 2.1

Cymharu ymgyrchoedd dros newid

Ymgyrchoedd i newid blaenoriaethau asiantaethau (tudalennau 50–51)

Amlinellwch yn gryno ymgyrch No Knives, Better Lives.

Ymgyrchoedd i sicrhau newid o ran trefniadau cyllido (tudalen 51)

Amlinellwch yn gryno ymgyrch #WeWontWait.

69





Ymgyrchoedd i sicrhau newid mewn ymwybyddiaeth (tudalennau 51–52)

1. Amlinellwch yn gryno ymgyrch #MeToo.

2. Ysgrifennwch grynodedb o lwyddiant ymgyrch #MeToo.

Testun 2.1

Cymharu ymgyrchoedd dros newid

Ymgyrchoedd i newid agweddau (tudalennau 52–53)

1. Amlinellwch yn gryno ymgyrch Stop Hate UK.

2. Ysgrifennwch grynodedb o lwyddiant ymgyrch Stop Hate UK.

70



Gweithgaredd: Ymchwil *Cymharu ymgyrchoedd* (tudalen 53)

Ar gyfer eich asesiad dan reolaeth, bydd angen i chi gymharu'r amrywiaeth o ymgyrchoedd rydych chi wedi eu hastudio yn y testun hwn, ynghyd ag unrhyw ymgyrchoedd eraill rydych chi wedi ymchwilio iddyn nhw yn annibynnol. Mae angen i chi ystyried y cwestiynau canlynol:

1. Diben yr ymgyrch – beth roedd yn ceisio ei gyflawni?
2. Cefndir yr ymgyrch – pa ddigwyddiadau arweiniodd at sefydlu'r ymgyrch?
3. A oedd yn llwyddiannus o ran cyflawni ei hamcan – pa dystiolaeth sydd o lwyddiant yr ymgyrch?
4. Ym mha ffyrdd mae'r amrywiol ymgyrchoedd yn debyg neu'n wahanol i'w gilydd? Er enghraifft, a ydyn nhw'n defnyddio dulliau tebyg? A yw eu hamcanion yn wahanol?

Ysgrifennwch eich nodiadau yn y lle gwag isod.

Testun 2.1

Cymharu ymgyrchoedd dros newid

71



Paratoi ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (tudalen 53)

Cwblhewch eich gwaith paratoi yn y lle gwag isod.

Testun 2.1

Gymharu ymgyrchoedd dros newid

72




TESTUN 2.2 Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryngau a ddefnyddir fel rhan o ymgyrchoedd dros newid

Amcanion Dysgu:

Ar ôl astudio'r testun hwn, dylech chi allu:

Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryngau canlynol a ddefnyddir fel rhan o ymgyrchoedd dros newid:

- blogiau
- negeseuon firol
- rhwydweithio cymdeithasol
- hysbysebu
- radio
- teledu
- ffilm
- rhaglenni dogfen
- ar lafar
- digwyddiadau
- cyfryngau print.



Testun 2.2
Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryngau mewn ymgyrchoedd

Man cychwyn (tudalen 54)

Ysgrifennwch eich atebion i'r gweithgaredd Man cychwyn yn y lleoedd gwag isod.

1. O'r holl ymgyrchoedd dros newid rydych chi wedi'u hastudio yn y testun blaenorol, pa un yw'r ymgyrch orau yn eich barn chi? Rhwch resymau dros eich ateb.

2. Beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ledaenu neges ymgyrch ac ennill cefnogaeth, yn eich barn chi? Rhwch resymau dros eich ateb.

Sut mae ymgyrchoedd yn defnyddio'r cyfryngau i greu newid (tudalennau 54–60)

Blogiau (tudalen 54)

1. Beth yw blogiau?

2. Ysgrifennwch grynodedb o sut mae Unlock yn defnyddio blogiau.



Gweithgaredd: Ymchwil *Defnyddio blogiau mewn ymgyrchoedd* (tudalen 54)

A. Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag isod.

1. Pa wybodaeth mae blog Unlock yn ei chynnig?

2. Yn eich barn chi, a oedd y blog yn ddiddorol ac yn hawdd ei ddarllen? Allwch chi awgrymu unrhyw welliannau gallai Unlock eu gwneud i'r blog?

B. Gan ddefnyddio blog Unlock fel enghraifft, awgrymwch sut mae'n arddangos un o gryfderau ac un o gyfyngiadau blogiau. Rhowch enghreifftiau penodol o'r blog i gefnogi eich pwyntiau. Rhowch grynodedeb o fanteision ac anfanteision defnyddio blog fel rhan o ymgyrch.

Testun 2.2

Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryngau mewn ymgyrchoedd

Negeseua firol (tudalen 55)

1. Beth yw negeseua firol?

2. Sut gellir cynyddu'r tebygrwydd y bydd neges yn mynd yn firol?

Gweithgaredd: *Defnyddio negeseua firol mewn ymgyrchoedd* (tudalen 55)

Beth mae canlyniadau eich gweithgaredd negeseua yn ei ddweud wrthoch chi am ddefnyddioldeb y cyfryngau cymdeithasol wrth ledaenu negeseuon?

Beth yw'r cyfyngiadau?

74



Rhwydweithio cymdeithasol (tudalennau 55–56)

1. Ym mha ffyrdd mae Stop Hate UK yn defnyddio rhwydweithio cymdeithasol?
2. Pa mor effeithiol oedd yr hashnod Twitter ar gyfer ymgyrch #MeToo?
3. Beth yw cyfyngiadau rhwydweithio cymdeithasol? Rhowch enghreifftiau penodol.

Testun 2.2

Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryngau mewn ymgyrchhoedd

Gweithgaredd: Ymchwil *Rhwydweithio cymdeithasol* (tudalen 56)

1. Pa negeseuon mae'r ymgyrch yn eu rhoi ar y cyfrifon cymdeithasol?
2. A yw'r tudalennau yn denu sylw, yn eich barn chi? Rhowch eich rhesymau. A fyddech chi'n eu dilyn nhw?
3. Faint o ddilynwyr sydd gan Stop Hate UK ar Twitter?
4. Ysgrifennwch grynodedb o fanteision ac anfanteision defnyddio rhwydweithio cymdeithasol i hyrwyddo ymgyrch dros newid.

75





Hysbysebu (tudalen 56)

1. Rhestrwch y mathau o hysbysebion gallai ymgyrch eu defnyddio.
2. Faint gallai hysbyseb 30 eiliad ar y teledu ei gostio?
3. Pa ffyrdd o hysbysebu sy'n gallu bod yn rhatach na theledu, ond sy'n dal i fod yn effeithiol?

Testun 2.2

Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfrngau mewn ymgyrchodd

Gweithgaredd: Ymchwil (tudalen 56)

1. Faint mae eich papur newydd lleol yn ei godi am hysbyseb hanner tudalen?
2. Faint mae eich gorsaf radio leol yn ei godi am hysbyseb 30 eiliad?

Baneri gwe (tudalen 56)

Beth yw baner gwe? Rhowch enghraifft o ymgyrch sydd wedi defnyddio'r math hwn o hysbyseb.

Nwyddau (tudalennau 56–57)

Rhestrwch amrywiaeth o nwyddau gallai ymgyrch eu defnyddio i hyrwyddo ei neges. Pam gallai hyn fod yn ddull ymgyrchu effeithiol?

76





Radio (tudalen 57)

Disgrifiwch yn gryno ddwy ffordd gallai ymgyrch ddefnyddio'r radio i hyrwyddo ei neges.

Teledu (tudalen 57)

1. Heblaw am hysbysebu, sut gallai ymgyrch ddefnyddio'r teledu i hyrwyddo ei achos?
2. Ym mha ffyrdd gall ymgyrchoedd sicrhau bod eu hysbysebion teledu yn cyrraedd eu cynulleidfa darged?

Gweithgaredd: Ymchwil (tudalen 57)

1. Gwylwch fwletin newyddion lleol neu genedlaethol bob dydd am ddau neu dri diwrnod. Gwnewch gofnod o unrhyw aelodau o grwpiau ymgyrchu sy'n ymddangos ar y newyddion. Gwnewch gofnod o'r mater dan sylw, yr ymgyrch, ac a oedd yn lleol neu'n genedlaethol.
2. Wrth wyllo'r teledu, gwnewch gofnod o unrhyw hysbysebion ar gyfer ymgyrchoedd.
3. Lluniwch grynodeb o'ch canfyddiadau ar sut mae ymgyrchoedd dros newid yn defnyddio'r teledu. Yn eich barn chi, a oedd ymddangos ar y newyddion yn fuddiol i'r ymgyrchoedd gwnaethoch chi eu gweld? Rhewch resymau dros eich ateb.

Ffilm (tudalen 58)

1. Sut gall ymgyrchoedd ddefnyddio ffilmiau i hyrwyddo eu neges?
2. Defnyddiwch enghraifft Parkinson's UK i ddisgrifio'r defnydd o ffilm gan ymgyrch. Pam roedd hwn yn ddefnydd cadarnhaol o'r cyfryngau?

Gweithgaredd: Clip fideo *Ffilmiau ymgyrchu* (tudalen 58)

Ar gyfer pob un o'r clipiau rydych chi'n eu gwyllo, atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth yw neges y clip?
2. Sut mae'r ffilmiau'n helpu gwylwyr i ddeall clefyd Parkinson?
3. Yn eich barn chi, a yw'r ffilmiau'n annog y gwylwr i gefnogi gwaith Parkinson's UK? Rhowch resymau dros eich ateb.

Rhaglenni dogfen (tudalen 58)

1. Beth yw rhaglenni dogfen, a pham maen nhw'n ddefnyddiol wrth hyrwyddo ymgyrch?
2. Beth yw dramâu dogfen, a pham maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer rhai ymgyrchoedd?

Gweithgaredd: Clip fideo *Troseddau cyllell* (tudalen 58)

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag isod.

1. Beth mae'r penawdau ar ddechrau'r rhaglen ddogfen yn ei ddweud wrthon ni?
2. Sut gwnaeth profiad personol o droseddau cyllell effeithio ar Jermaine Jenas?
3. Pa fath o fagwraeth gafodd Jenas?
4. Pa faterion yn ymwneud â throseddau cyllell sy'n cael eu crybwyll pan fydd Jenas yn siarad â'i fam (3:10–3:47)?
5. Beth mae achos Trish yn ei ddangos am droseddau cyllell? Beth yw ei neges?
6. Beth mae'r cyfweiliad gyda Ben, y newyddiadurwr, yn ei ddweud am y rhesymau dros y cynnydd mewn troseddau cyllell?
7. Beth mae achos Joshua Bradley yn ei ddangos am droseddau cyllell?
8. Beth mae'r cyfweiliad gyda 'Chris' yn ei ddangos am resymau dynion ifanc dros gario cyllyll? Pam nad yw 'Chris' yn dweud wrth yr heddlu pan mae'n cael ei drywanu?
9. Beth mae Jenas yn ei ddarganfod am droseddau cyllell pan mae'n ymweld â'r ysbyty?
10. Beth yw oed y person ieuengaf mae'r meddyg wedi'i weld a oedd yn gysylltiedig â throsedd cyllell?



11. Yn ôl y clip, gyda beth mae clwyfau trywanu yn gysylltiedig?
12. Beth mae Jenas yn ei ddysgu am gangiau ar ôl ei gyfweiliad â'r tri dyn sy'n aelodau o gangiau?
13. Yn ôl aelodau'r gangiau, beth yw'r ffactor mwyaf sy'n achosi troseddau cylllell?
14. Pa brofiadau gafodd aelodau'r gangiau pan oedden nhw'n blant? Beth yw effeithiau'r profiadau hyn?
15. Pam mae aelodau'r gangiau yn dweud nad ydyn nhw'n gallu gadael bywyd y gangiau?
16. Beth mae aelodau'r gangiau yn ei ddweud am y ffordd mae'r system cyfiawnder troseddol yn delio â throseddau cylllell?
17. Yn ôl aelodau'r gangiau, pam mae lefel troseddau cylllell yn uchel? Beth, ym marn Jenas, yw achos troseddau cylllell?
18. Yn ôl Baz, y cyn-focsiwr, pa gymorth ddylai fod ar gael i bobl ifanc er mwyn eu helpu i roi'r gorau i droseddau cylllell? Pa gymorth ddylai fod ar gael i'r rhai sydd wedi bod yn y carchar?
19. Sut mae 'Chris' wedi newid pan mae'n cwrdd â Jenas am yr ail dro? Pam nad yw 'Chris' yn gallu newid?
20. Yn ôl datganiad yr heddlu, beth maen nhw'n canolbwyntio arno yng nghyd-destun troseddau cylllell?





Ar lafar (tudalennau 58–59)

1. Sut gall neges ymgyrch gael ei lledaenu ar lafar?
2. Beth yw manteision lledaenu neges ar lafar?

Cwestiynau (tudalen 59)

1. Gwnewch restr o nodweddion y math o berson byddech chi'n ei ddychmygu fel arweinydd barn.
2. Pwy fyddech chi'n ei ddewis i weithredu fel arweinydd barn ar gyfer ymgyrch am droseddau casineb? Rhowch resymau dros eich ateb.

Digwyddiadau (tudalen 59)

1. Beth yw manteision cynnal digwyddiad i hyrwyddo eich ymgyrch?
2. Rhowch enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau gallech chi eu dewis.

Cwestiynau (tudalen 59)

1. Dychmygwch eich bod chi'n trefnu digwyddiad i hyrwyddo ymgyrch. Pa fath o ddigwyddiad byddech chi'n ei ddewis?
2. Ble fyddech chi'n cynnal y digwyddiad? Rhowch resymau i gefnogi eich ateb.



Cyfryngau print (tudalennau 59–60)

1. Ym mha ffyrdd gallech chi ddefnyddio papurau newydd neu gylchgronau i hyrwyddo eich ymgyrch?
2. Esboniwch yn gryno y mathau canlynol o gyfryngau print y gellir eu defnyddio i hyrwyddo ymgyrch:
 - a. datganiadau i'r wasg
 - b. taflenni
 - c. papurau newydd

Gweithgaredd: Ymchwil (tudalen 60)

Dewch o hyd i enghraifft o ymgyrch leol dros newid yn eich ardal sydd wedi bod yn y papur newydd lleol. (Does dim rhaid i'r ymgyrch ymwneud â throsteddu.)

1. Beth oedd yn adroddiad y papur newydd ynglŷn â'r ymgyrch?
2. Beth gwnaeth y stori ei gyflawni ar ran yr ymgyrch, yn eich barn chi? A wnaeth y stori godi ymwybyddiaeth o'r mater dan sylw? Os felly, ym mha ffordd (e.e. defnydd o achos go iawn)?
3. Pa ffeithiau a/neu ffigurau gafodd eu cynnwys yn y stori?
4. Ai nod y stori oedd helpu i godi arian ar gyfer yr ymgyrch?
5. Rhowch grynodeb o fanteision defnyddio papurau newydd lleol mewn ymgyrch dros newid.





Gwefannau (tudalen 60)

Pam mae gan lawer o ymgyrchoedd wefan yn ogystal â phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol? Defnyddiwch enghraifft No Knives, Better Lives i'ch helpu i esbonio.

Testun 2.2

Gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryngau mewn ymgyrchoedd

Paratoi ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (tudalen 60)

Cwblhewch eich gwaith paratoi yn y lle gwag isod.

83

TESTUN 3.1 Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throseddu


Amcanion Dysgu

Ar ôl astudio'r testun hwn, dylech chi allu:

- Adnabod ymgyrch briodol dros newid.
- Llunio cynllun manwl a chynhwysfawr ar gyfer eich ymgyrch, gan gynnwys camau gweithredu wedi'u disgrifio'n glir mewn trefn briodol o ran amser.

Dylai'r cynllun gynnwys:

- nodau ac amcanion
- cyfiawnhau'r dewis o ymgyrch
- cynulleidfa darged
- dulliau i'w defnyddio
- deunyddiau i'w defnyddio
- cyllid
- terfynau amser
- adnoddau sydd eu hangen.



Testun 3.1

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throseddu

Man cychwyn (tudalen 61)

Ysgrifennwch eich atebion i'r gweithgaredd Man cychwyn yn y lleoedd gwag isod.

1. Gwnewch restr o 5 math o drosedd a danreportiwyd y gallai ymgyrch ganolbwyntio aryn nhw.
2. O'r rhestr hon o droseddau, dewiswch yr un rydych chi eisiau ei defnyddio ar gyfer eich ymgyrch dros newid. Rhowch resymau dros eich dewis.

Cynllunio eich ymgyrch ymarfer (tudalennau 61–65)

Eich nodau (tudalennau 61–62)

1. Beth yw nodau?
2. Ar beth dylai eich nodau ganolbwyntio?



Ysgrifennwch enw eich ymgyrch yn y lle gwag isod.

Testun 3.1

Gweithgaredd: Ymchwil Mathau o newid (tudalen 62)

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throsetdu

A. Gan weithio mewn grwpiau bach, dylai pob grŵp edrych ar y wefan a dewis un o'r pedwar math o newid.

1. Lluniwch gyflwyniad byr ar y math o newid mae eich grŵp wedi'i ddewis. Dylai'r cyflwyniad gynnwys gwybodaeth am yr ymgyrch i sicrhau'r newid hwn. Gwnewch eich nodiadau yn y lle gwag isod.

2. Gwnewch eich cyflwyniad o flaen y dosbarth.

3. Wrth wrando ar gyflwyniadau'r grwpiau eraill, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud nodiadau ar bob math o newid.

B. Gan weithio ar eich pen eich hun, ystyriwch pa rai o'r mathau hyn o newid allai fod yn briodol ar gyfer eich ymgyrch. (Gallai mwy nag un math fod yn briodol.)

85



Eich amcanion (tudalen 62)

Beth yw amcanion?

Testun 3.1

Gweithgaredd: Sefydlu cysylltiad rhwng eich nodau a'ch amcanion (tudalen 62)

Gweithiwch ar eich pen eich hun.

1. Rhestrwch nod(au) eich ymgyrch ymarfer. Cofiwch gynnwys y math o drosedd a'r gynulleidfa darged, yn ogystal â diben eich ymgyrch.

2. Rhannwch eich nod(au) yn gyfres o amcanion CAMPUS. Defnyddiwch y tabl isod.

CAMPUS	Amcan 1	Amcan 2	Amcan 3
Cyraeddadwy			
Amseredig			
Mesuradwy			
Penodol			
Uchelgeisiol/ Synhwyrol			

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throsteddu

86

Gweithgaredd: Cyfiawnhau'r ymgyrch (tudalen 63)

1. Ar gyfer y math o drosedd rydych chi wedi'i ddewis, rhestrwch yr holl resymau pam na fyddai pobl yn reportio'r drosedd hon o bosibl. Er enghraifft, efallai fod rhesymau personol a/neu gymdeithasol/diwylliannol dros beidio â reportio'r drosedd. (Gweler **Testun 1.2.**)
2. Beth yw canlyniadau peidio â reportio'r drosedd hon? Er enghraifft, a yw'n effeithio ar flaenoriaethau'r heddlu, neu'n golygu bod y drosedd yn cael ei thangofnodi? Nodwch bob canlyniad perthnasol. (Gweler **Testun 1.3.**)
3. Nodwch sut mae trosedd o'r fath yn cael ei phortreadu yn y cyfryngau. Er enghraifft, a yw'n cael ei phortreadu mewn ffordd ymfflamychol neu ddeniadol? (Gweler **Testun 1.4.**) Sut gallai adroddiadau yn y cyfryngau effeithio ar ganfyddiadau'r cyhoedd o'r drosedd hon? Er enghraifft, a yw'r adroddiadau wedi creu panig moesol ynglŷn â'r drosedd? (Gweler **Testun 1.5.**)
4. Chwiliwch am ystadegau troseddu a gofnodwyd gan yr heddlu ac ystadegau o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y drosedd rydych chi wedi'i dewis yn eich ymgyrch ymarfer. (Gweler **Testun 1.6.**) A yw'r ystadegau hyn yn tynnu sylw at faterion sy'n cyfiawnhau eich ymgyrch? Er enghraifft, a yw'r drosedd wedi'i thangofnodi yn ystadegau'r heddlu?
5. Edrychwch eto ar **Destunau 2.1** a **2.2** a nodwch unrhyw nodweddion o ymgyrchoedd blaenorol dros newid y byddech chi'n hoffi eu cynnwys yn eich ymgyrch ymarfer.
6. Nodwch unrhyw enghreifftiau 'go iawn' o'r drosedd. Gallai'r troseddau hyn fod yn rhai lleol, yn rhai sydd wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar, neu'n rhai sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd rydych chi wedi'u hastudio.

Eich cynulleidfa darged (tudalen 63)

Beth yw cynulleidfa darged?

Testun 3.1

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throseddu

87



Gweithgaredd: *Pwy yw eich cynulleidfa darged?* (tudalen 63)

1. Nodwch y gynulleidfa darged ar gyfer eich ymgyrch ymarfer.
2. A yw eich nodau a'ch amcanion yn cyfeirio at y grŵp hwn? Os nad ydyn nhw, ychwanegwch y gynulleidfa darged atyn nhw.
3. Esboniwch pam mae eich cynulleidfa darged yn berthnasol. Beth yw cysylltiad y gynulleidfa hon â'r math o drosedd rydych chi wedi'i ddewis? Er enghraifft, a yw'r gynulleidfa darged yn ddiodefwrwr posibl? Yn droseddwr? Yn dystion? Yn bobl a allai atal y drosedd?
4. A oes unrhyw nodweddion allweddol yn perthyn i'ch cynulleidfa darged y mae angen eu hystyried wrth ddylunio eich ymgyrch ymarfer – er enghraifft, oedran, rhywedd neu ethnigrwydd?

Testun 3.1

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throseddu

Dulliau a deunyddiau (tudalennau 63–64)

Esboniwch yn gryno beth mae angen i chi ei ystyried wrth ddewis y canlynol ar gyfer eich ymgyrch:

a. dull eich ymgyrch

b. deunyddiau eich ymgyrch

88



Gweithgaredd: *Denu eich cynulleidfa darged* (tudalen 64)

1. Pa ddeunyddiau byddwch chi'n eu defnyddio (e.e. taflenni, posterï, nwyddau, gwefan etc.)?
2. Sut bydd nodweddion eich cynulleidfa darged yn effeithio ar y dulliau byddwch chi'n eu defnyddio ar gyfer eich ymgyrch ymarfer?
3. Esboniwch sut bydd eich deunyddiau a'r ffordd rydych chi'n mynd i'w defnyddio yn eich galluogi chi i gyrraedd a denu eich cynulleidfa darged.

Testun 3.1

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throsteddu

Trefniadau cyllido (tudalen 64)

1. Pam mae'n bwysig ystyried costau eich ymgyrch?
2. Beth yw diben cynllunio eich gwaith codi arian, a pham mae'n bwysig bod yn realistig ynglŷn â faint o arian rydych chi'n debygol o'i godi?

89





Gweithgaredd: *Trefniadau cyllido* (tudalen 64)

Lluniwch gynllun cyllido ar gyfer eich ymgyrch.

1. Cyfrifwch gost unrhyw ddeunyddiau ymgyrchu rydych chi'n bwriadu eu defnyddio. Er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu argraffu crysau T, faint byddan nhw'n ei gostio? Faint o grysau T byddwch chi'n eu cynhyrchu?

2. Sut byddwch chi'n codi arian? Rhowch rai enghreifftiau o sut gallech chi godi arian a faint byddech chi'n disgwyl ei godi o'r ffynonellau hyn.

Gweithgaredd: *Terfynau amser* (tudalen 65)

Gan ddefnyddio pwyntiau 1–4 isod, nodwch derfyn amser ar gyfer pob cam yn eich ymgyrch ymarfer.

1. **Cynllunio ac ymchwilio**

2. **Dylunio**

3. **Deunyddiau**

4. **Gweithredu**



Adnoddau eraill bydd eu hangen arnoch (tudalen 65)

Amlinellwch yn gryno unrhyw adnoddau eraill bydd eu hangen arnoch o bosibl, fel gwirfoddolwyr neu hyfforddiant.

Testun 3.1

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throsetdu

Gweithgaredd: Ymchwil *Cynllunio eich ymgyrch ymarfer* (tudalen 65)

1. Mae'r dudalen we yn ganllaw defnyddiol wrth gynllunio ymgyrch. Gwnewch unrhyw nodiadau sydd eu hangen arnoch o'r dudalen we yn y lle gwag isod.

2. A yw eich ymgyrch yn cynnwys pump o elfennau'r ymgyrchoedd gorau? Gwnewch nodiadau yn y lle gwag isod ar unrhyw welliannau mae angen i chi eu gwneud.

91





Paratoi ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (tudalen 65)

Cwblhewch eich gwaith paratoi yn y lle gwag isod.

Testun 3.1

Cynllunio ymgyrch dros newid sy'n ymwneud â throsteddu

92



TESTUN 3.2 Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Amcanion Dysgu:

Ar ôl astudio'r testun hwn, dylech chi allu:


Cynhyrchu deunyddiau deniadol, wedi'u dylunio'n dda ar gyfer eich ymgyrch dros newid. Rhaid i'r cynnwys fod yn briodol o ran newid ymddygiad. Dylai'r deunyddiau fod yn ysgogol yn weledol ac o ran geiriau, ac yn dechnegol gywir.

Dylech chi ystyried y canlynol wrth ddylunio eich deunyddiau:

- strwythur gwybodaeth
- defnyddio delweddau neu nodweddion pwysleisio eraill i ddal sylw
- defnyddio iaith berswadiol
- hyrwyddo camau gweithredu
- ystyried y gynulleidfa darged
- sicrhau cysondeb rhwng eich deunyddiau a'r ymgyrch.

Dylech chi ystyried dyluniad deunyddiau fel:

- taflenni
- hysbysebion
- posterï
- blogiau
- tudalennau ar rwydweithiau cymdeithasol.



Testun 3.2
Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Man cychwyn (tudalen 66)

Ysgrifennwch eich atebion i'r gweithgaredd Man cychwyn yn y lle gwag isod.

1. Gan weithio mewn grŵp bach, cyn i chi ystyried y dyluniad ar gyfer eich ymgyrch ymarfer eich hun, edrychwch ar ymgyrchoedd eraill i gael syniadau. Casglwch amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddo, fel taflenni neu dudalennau gwe, ar gyfer ymgyrchoedd atal troseddu. Efallai bydd y deunyddiau hyn ar gael ar-lein neu gan yr heddlu, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, etc. Dylech chi edrych ar amrywiaeth o ymgyrchoedd er mwyn cael cynifer o syniadau â phosibl.
2. Gan weithio ar eich pen eich hun, chwiliwch am unrhyw bosteri ac arddangosfeydd cyhoeddus eraill (e.e. ar fysiau) sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd atal troseddu neu ymgyrchoedd dros newid. Tynnwch luniau er mwyn bod gennych chi gopi i gyfeirio atyn nhw.
3. Fel dosbarth, archwiliwch a thrafodwch yr holl ddeunyddiau rydych chi wedi'u casglu i benderfynu pa rai sydd â dyluniadau effeithiol a pham maen nhw'n effeithiol. Gwnewch nodiadau ar hyn yn y lle gwag isod.

Dylunio eich deunyddiau (tudalennau 66–71)

Pam mae deunyddiau'n bwysig mewn ymgyrch?

Testun 3.2

Strwythuro eich gwybodaeth (tudalen 67)

1. Pam mae'n bwysig ystyried strwythur eich deunyddiau?
2. Beth yw'r ystyriaethau pwysig wrth gynllunio gosodiad unrhyw ddeunyddiau?

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Gweithgaredd: Clip fideo *Gosodiadau* (tudalen 67)

- A. Gan weithio ar eich pen eich hun, gwylwch y clip a gwnewch nodiadau ar yr hyn sy'n gwneud gosodiad llwyddiannus.
- B. Gan ddefnyddio syniadau o'r clip, ystyriwch sut byddech chi'n dylunio gosodiad y deunyddiau ar gyfer eich ymgyrch chi. Ysgrifennwch nodiadau cryno i'ch arwain wrth ddylunio eich gosodiadau.

94



Gweithgaredd: *Strwythuro eich gwybodaeth* (tudalen 67)

Edrychwch eto ar wefannau'r ymgyrchoedd gwnaethoch chi eu cymharu yn **Nhestunau 2.1 a 2.2**, ac edrychwch ar y deunyddiau maen nhw wedi'u cynhyrchu.

1. Gwnewch nodiadau ar osodiadau gwahanol y poster. Er enghraifft, mae gan ymgyrch Stop Hate UK bob math o bosteri ar ei gwefan.

2. Sut mae'r wybodaeth yn y taflenni yn wahanol i'r wybodaeth yn y poster? A oes unrhyw debygrwydd rhwng y ddau?

3. Edrychwch ar y nwyddau mae'r ymgyrchoedd wedi'u cynhyrchu, fel crysau T a mygiau. Sut mae'r negeseuon wedi'u harddangos ar y nwyddau hyn?

4. Ar gyfer eich ymgyrch ymarfer, dyluniwch rai gosodiadau ar gyfer y deunyddiau rydych chi'n mynd i'w cynhyrchu. Er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu defnyddio poster, ble gallech chi roi delwedd, y brif neges, a manylion cyswllt ar gyfer yr ymgyrch?

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Defnyddio delweddau a ffyrdd eraill o ddal sylw (tudalennau 67–68)

1. Gan ddefnyddio'r enghraifft o'r llwy ar dudalen 67, esboniwch sut gall delweddau fod yn ddefnyddiol i ymgyrch.

2. Pam byddai ymgyrch yn dewis defnyddio delweddau ysgytwol?

95

Testun (tudalen 68)

1. Beth mae angen ei ystyried wrth ddewis testun ar gyfer eich ymgyrch?
2. Pa liwiau ddylai gael eu hystyried ar gyfer testun y deunyddiau?
3. Pam mae logo yn ddefnyddiol ar gyfer ymgyrch?
4. Beth mae angen i sgrïpt hysbyseb teledu neu radio ei gynnwys?

Gweithgaredd: *Defnyddio delweddau* (tudalen 68)

Edrychwch ar y delweddau ar wefannau'r ymgyrchoedd gwnaethoch chi eu hastudio yn **Nhestunau 2.1 a 2.2**.

1. Pa ddelweddau sy'n dal eich sylw?
2. Beth maen nhw'n ei ddweud wrthoch chi am yr ymgyrch?
3. Yn eich barn chi, pam gwnaeth yr ymgyrch ddewis y delweddau penodol hynny?

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

96



Defnyddio iaith berswadiol (tudalennau 68–69)

Amlinellwch yn gryno y mathau canlynol o iaith berswadiol:

1. ailadrodd
2. rheol tri
3. gormodiaith
4. iaith emosiynol
5. cwestiynau rhethregol
6. siarad yn uniongyrchol â'r darlennydd
7. hanesion a straeon o ddiddordeb i bobl

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Gweithgaredd: Clip fideo *iaith berswadiol* (tudalen 69)

1. Gan ddefnyddio'r rhestr o dechnegau iaith berswadiol ar dudalen 68, nodwch unrhyw enghreifftiau o'r mathau gwahanol o iaith berswadiol sy'n ymddangos yn y clip.
2. Ysgrifennwch ychydig o destun ar gyfer eich ymgyrch (e.e. ar gyfer taflen, poster, hysbyseb yn y wasg etc.), gan ddefnyddio sawl math gwahanol o iaith berswadiol.

97





Hyrwyddo camau gweithredu (tudalen 69)

1. Pa fathau o gamau gweithredu gallai ymgyrch fod yn eu hannog?

2. Gan ddefnyddio enghraifft, esboniwch sut gall iaith gael ei defnyddio i ddangos pa gamau gweithredu mae ymgyrch yn eu hannog.

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Gweithgaredd: *Hyrwyddo camau gweithredu* (tudalen 69)

1. Edrychwch yn ôl ar yr ymgyrchoedd yn **Nhestunau 2.1** a **2.2**, a rhestrwch rai o'r ffyrdd mae eu deunyddiau yn annog cefnogwyr i weithredu.

2. Ar gyfer eich ymgyrch ymarfer, sut bydd dyluniad eich deunyddiau'n denu cefnogwyr ac yn eu hannog i weithredu?

Ystyried eich cynulleidfa darged (tudalen 69)

Gan ddefnyddio enghraifft, esboniwch sut gellir creu deunyddiau sy'n ddeniadol i gynulleidfa darged.

98





Gweithgaredd: *Eich cynulleidfa darged* (tudalen 69)

Ar gyfer eich ymgyrch ymarfer:

1. Pwy yw eich cynulleidfa darged? A oes mwy nag un grŵp o bobl?

2. Esboniwch sut bydd dyluniad eich deunyddiau'n denu sylw eich cynulleidfa darged.

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Sicrhau cysondeb rhwng eich deunyddiau a'ch ymgyrch (tudalen 69)

1. Esboniwch yn gryno pam mae'n bwysig sicrhau bod cysylltiad rhwng eich holl ddeunyddiau.

2. Rhowch enghraifft o sut gallwch chi greu'r cysylltiad hwn rhwng eich deunyddiau.

Gweithgaredd: Clip fideo *Eich deunyddiau* (tudalen 69)

Defnyddiwch y wefan i'ch helpu chi i benderfynu ar y canlynol:

1. Pa fathau o ddeunyddiau i'w cynhyrchu.

2. Pa nodweddion dylunio i'w cynnwys yn eich deunyddiau.

99





Amrywiaeth yn eich deunyddiau (tudalen 70)

1. Esboniwch sut gallwch chi gael amrywiaeth yn eich deunyddiau ymgyrchu.

2. Sut byddwch chi'n sicrhau rhywfaint o gysondeb yn eich deunyddiau?

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

Gweithgaredd: Logos a sloganau (tudalen 70)

1. Edrychwch yn ôl ar yr ymgyrchoedd yn **Nhestunau 2.1** a **2.2**. Sylwch ar logos yr ymgyrchoedd hyn a lle maen nhw'n ymddangos ar unrhyw ddeunyddiau ymgyrchu. A oes slogan ganddyn nhw hefyd?

2. Dyluniwch logo a slogan i'w defnyddio yn eich ymgyrch. Cofiwch y pwyntiau yn yr adran *Defnyddio delweddau a ffyrdd eraill o ddal sylw*.

100





Paratoi ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (tudalen 71)

Cwblhewch eich gwaith paratoi yn y lle gwag isod.

Testun 3.2

Dylunio deunyddiau i'w defnyddio wrth ymgyrchu dros newid

101




TESTUN 3.3 Cyfiawnhau ymgyrch dros newid

Amcanion Dysgu:

Ar ôl astudio'r testun hwn, dylech chi allu:

- Rhoi cyfiawnhad clir a manwl, sy'n rhesymegol ar gyfer eich ymgyrch ymarfer, gan gynnwys casgliadau wedi'u hategu gan farn berthnasol, gan gynnwys:
 - cyflwyno achos dros weithredu
 - defnyddio tystiolaeth i ategu achos
 - defnyddio iaith berswadiol.
- Cyfiawnhau'r dull gweithredu a'r angen am ymgyrch dros newid.



Testun 3.3
Cyfiawnhau ymgyrch dros newid

Man cychwyn (tudalen 72)

Gwnewch eich nodiadau ar ymgyrch eich partner yn y lle gwag isod.

Cyflwyno eich achos dros weithredu (tudalen 72)

Gweithgaredd: Cyflwyno eich achos dros weithredu (tudalen 72)

Ysgrifennwch gyfiawnhad llawn o'r angen am weithredu ar y testun rydych chi wedi'i ddewis ar gyfer eich ymgyrch ymarfer dros newid. Dylech chi ysgrifennu o leiaf dwy frawddeg ar gyfer pob un o'r pwyntiau bwled ar dudalen 72.



Defnyddio tystiolaeth i ategu eich achos (tudalennau 72–73)

Gweithgaredd: *Defnyddio tystiolaeth i ategu eich achos* (tudalen 73)

Gan ddefnyddio pwyntiau 1–7 ar dudalennau 72–73, ysgrifennwch gyfiawnhad llawn ar gyfer eich ymgyrch ymarfer. Ar gyfer pob pwynt, rhaid i chi ddangos y dystiolaeth sy'n ategu eich achos.

1.

2.

3.

4.

5.

6.

7.

Testun 3.3

Cyfiawnhau ymgyrch dros newid

103



Eich defnydd o iaith berswadiol (tudalen 73)

Gweithgaredd: *Eich defnydd o iaith berswadiol* (tudalen 73)

Gan ddefnyddio'r rhestr o'r mathau o iaith berswadiol yn **Nhestun 3.2**, nodwch enghreifftiau o ble rydych chi wedi defnyddio'r math hwn o iaith yn eich deunyddiau ymgyrchu.

Esboniwch pam mae'r enghreifftiau hyn yn debygol o fod yn effeithiol wrth eich helpu chi i gyflawni nodau eich ymgyrch.

Testun 3.3

Cyfiawnhau ymgyrch dros newid

Paratoi ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (tudalen 73)

Eich atebion i'r tri gweithgaredd uchod fydd eich gwaith paratoi ar gyfer asesiad dan reolaeth y testun hwn. Gwnewch unrhyw nodiadau ychwanegol sydd eu hangen arnoch yn y lle gwag isod.